# Pwyllgor Adolygu Gweithredol

**25 Medi 2024**

**Yn bresennol:** Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd T Evans, Mrs J James (yn dirprwyo ar ran Dr R Plummer), Cynghorydd SL Hancock MBE, Mr GA Jones, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Hefyd yn bresennol**: Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Jessica Morgan (Pennaeth Datgarboneiddio), Sara Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), Andrew Muskett (Rheolwr Prosiectau Adeiladu), a Mair Thomas (Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth).

[Ymunodd y Cynghorydd M Wiggins â’r cyfarfod cyn ystyried adroddiad 07/24, Archwiliad Dwfn/ Hunanasesiad ar yr Amcan Llesiant: Hinsawdd]

(Cyfarfod Rhithiol: 1.00pm – 2:32pm)

**1. Ethol Cadeirydd**

Agorodd y Cynghorydd S Hancock MBE y cyfarfod a dweud mai dim ond un enwebiad oedd wedi dod i law ar gyfer y swydd Cadeirydd: Dr R Plummer.

Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock, a eiliwyd gan Mrs J James, **penderfynwyd** penodi Dr R Plummer yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

Dywedodd y Cynghorydd S Hancock mai dim ond un enwebiad oedd wedi dod i law ar gyfer y swydd Is-Gadeirydd: Mrs S Hoss.

Ar gynnig y Cynghorydd C Williams, a eiliwyd gan Mr GA Jones, **penderfynwyd** penodi Mrs S Hoss yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

Yn absenoldeb Dr R Plummer a Mrs S Hoss, parhaodd y Cynghorydd S Hancock i gadeirio gweddill y cyfarfod.

**3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd C George, Mrs S Hoss a Dr R Plummer.

**4. Datgan buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**5. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2024 i’w cadarnhau a’u dilysu.

Ar gynnig Mr GA Jones, a eiliwyd gan y Cynghorydd C Williams, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2024.

**6. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Mewn ymateb i ymholiad gan yr Aelodau, cadarnhaodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth y byddai'r adroddiad y gofynnwyd amdano ar y gweithgareddau a’r digwyddiadau, yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r cyfarfod ar y thema 'Cymuned' fis Mawrth 2025. Cytunwyd bod y log gweithredu yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny i gynnwys yr eglurhad hwn.

**Nodwyd.**

**7. Archwiliad Dwfn / Hunanasesiad ar yr Amcan Llesiant Hinsawdd**

Croesawodd y Cadeirydd y Pennaeth Datgarboneiddio a gyflwynodd adroddiad ar yr archwiliad dwfn a’r hunanasesiad ar yr amcan llesiant, sef yr Hinsawdd. Roedd yr adroddiad yn amlinellu bod yr amcan Hinsawdd yn canolbwyntio ar lwyddo i fod yn Awdurdod carbon niwtral erbyn 2030, a chynorthwyo’r Parc i fod yn garbon niwtral, ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion y canlyniadau a ddisgwylir o’r amcan, asesiad o’r camau ymlaen a gymerwyd, yr ystadegau perthnasol, sawl astudiaeth achos, manylion yr heriau a’r cyfleoedd, manylion am y cyfraniadau at ganlyniadau trawsbynciol, ac asesiad cyffredinol, ynghyd â’r camau nesaf.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am Gronfa Datblygu Cynaliadwy yr Awdurdod, a gofynnodd Aelod am ffigur cronnol o gyfanswm yr allyriadau carbon a arbedwyd ar draws pob prosiect y Gronfa. Roedd y Swyddog yn cydnabod y byddai hwn yn ffigwr anodd i'w gyfrifo gan fod y prosiectau yn cychwyn ar wahanol adegau ac oherwydd yr amrywiaeth yn effeithlonrwydd y systemau gwahanol mewn lleoliadau amrywiol. Eglurodd bod ymgeiswyr yn cyflwyno adroddiad, pan fydd prosiectau wedi'u cwblhau, ar eu hamcangyfrif o’r gostyngiad mewn allyriadau, ac y gellid coladu’r wybodaeth honno pe bai gofyn.

Dywedwyd bod yr Awdurdod yn wynebu heriau o ran lleihau allyriadau o'i gadwyn cyflenwi, her a wynebir hefyd gan nifer o sefydliadau sector cyhoeddus, a holodd Aelod sut mae'r Awdurdod yn taro cydbwysedd rhwng cefnogi busnesau lleol a chael y pris gorau. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog, fel rhan o bolisi newydd yr Awdurdod, y byddai tendrau yn cael eu hasesu ar sail y cynnig 'mwyaf manteisiol' yn hytrach na dim ond ystyried y gost.

**Nodwyd.**

**8. Adroddiad ar Linell Sylfaen Carbon a Gwaith Partneriaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCNP).**

Cyflwynodd y Pennaeth Datgarboneiddio adroddiad oedd yn amlinellu'r gwaith yr oedd yr Awdurdod wedi'i wneud o ran llunio adroddiad ar y Llinell Sylfaen Carbon ar gyfer y Parc Cenedlaethol, a'r gwaith a wnaed gyda'r partneriaethau i gyflawni sero net. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gefndir megis targedau'r Awdurdod, manylion yr adroddiad ar y llinell sylfaen carbon ar gyfer yr Awdurdod, manylion y gweithgareddau perthnasol a gynhaliwyd, a ffigurau cymharu.

Canmolodd yr Aelodau y Swyddogion am yr hyn a gyflawnwyd yn y maes datgarboneiddio, a gofynnwyd a oedd yr enghreifftiau hyn o arfer da yn cael eu hyrwyddo ymysg y cyhoedd yn gyffredinol. Ymatebodd y Swyddog er bod y tîm yn hyrwyddo gwaith yr Awdurdod i sefydliadau partner, y gellid gwneud mwy o waith i gyflwyno gwybodaeth i'r cyhoedd ehangach.

**Nodwyd.**

**9. Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Cyflwynodd y Pennaeth Datgarboneiddio adroddiad oedd yn rhoi adolygiad i'r Aelodau o Brosiect Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth gefndir, manylion y gweithgaredd a gyflawnwyd, ystadegau perthnasol, adborth ymwelwyr, a data cymharu.

Dywedwyd bod prosiect Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan yr Awdurdod yn enghraifft wych o gydweithio â sefydliadau partner, a gofynnodd Aelod faint o lwyddiant yr Awdurdod yn y dyfodol yn y maes hwn oedd yn dibynnu ar fuddsoddiad cyfalaf. Cadarnhaodd y Swyddog bod y prosiect yn gwbl ddibynnol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru.

**Nodwyd.**

**10. Adroddiad Perfformiad ar yr Amcanion Llesiant**

Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth a gyflwynodd yr Adroddiad Perfformiad ar yr Amcanion Llesiant oedd yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaed yn erbyn y dangosyddion/ prosiectau/ rhaglenni gwaith blaenoriaeth am y cyfnod yn diweddu 31 Gorffennaf 2024 ac oedd yn cynnwys ystadegau chwarter 1 ar gyfer rhai mesurau. Roedd yr adroddiad perfformiad yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei bedwar Amcan Llesiant (Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a Chymunedau) fel y nodir yn ein Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2023/24 – 2026/27.

Manteisiodd y Swyddog ar y cyfle i dynnu sylw at 3 o ystadegau anghywir yn yr adroddiad. Hysbyswyd yr Aelodau bod y tîm wedi cynnal ymchwiliad pellach i'r tasgau a gwblhawyd gan y rhaglen waith ar beillwyr ac ar dorri porfa a chynnal a chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus gan fod y ffigurau cychwynnol yn ymddangos yn arbennig o isel. Yn dilyn yr ymchwiliad, dywedodd y Swyddog bod gwallau wedi'u clustnodi ac nad oedd data llawn y

gweithgareddau torri porfa wedi'u casglu pan gyhoeddwyd yr adroddiad cychwynnol. O ganlyniad, cadarnhawyd y ffigurau diwygiedig canlynol:

- Nifer y tasgau yn y rhaglen waith ar beillwyr/ gwella cynefinoedd a gwblhawyd gan y Tîm Cefn Gwlad: 72 (yn hytrach na 0).
- Nifer y tasgau yn rhaglen waith y Tîm Cefn Gwlad ar dorri porfa ac ar gynnal a chadw'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus a gwblhawyd: 130 (yn hytrach na 95).
- Nifer y tasgau cynnal a chadw yn rhaglen waith y Tîm Cefn Gwlad a gwblhawyd: 130 (yn hytrach na 95).

Nodwyd bod pob canolfan wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer yr ymwelwyr eleni hyd at ddiwedd mis Gorffennaf, o gymharu â 2023/24. Gofynnodd Aelod am ragor o fanylion ynghylch effaith ariannol y gostyngiad hwn yn nifer yr ymwelwyr. Cytunodd y Swyddog i gysylltu â'r Pennaeth Twristiaeth Adfywiol i ddeall yr effaith ar incwm tocynnau mynediad a gwerthu nwyddau, ac i gyflwyno'r wybodaeth hon i'r Aelodau.

Nodwyd bod cyfleoedd gwirfoddoli newydd posibl wedi'u clustnodi, fodd bynnag, roedd heriau ynghylch gallu cyfyngedig y staff i reoli gwirfoddolwyr. Gofynnodd Aelod a oedd y mater capasiti staff wedi'i ddatrys, a chytunodd y Swyddog i gysylltu â'r Swyddog Datblygu Gwirfoddoli i gael rhagor o wybodaeth.

**Nodwyd.**

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2024 heb eu diwygio.